

Dysgu gwersi o'r tywydd eithafol – cyngor y cwmniau yswiriant

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn codi cwestiynau am effaith y tywydd eithafol eleni, gan droi at farn y cwmniau yswiriant am y colledion cynyddol ...

YN ystod y flwyddyn ddiwethaf cawsom enghreifftiau lu o dywydd 'od'.

Roedd rhai digwyddiadau yn hoelio sylw mawr ar y newyddion ac eraill prin yn ennyn diddordeb.

Mae pawb yn cofio storm anferth Sandy yn taro ac yn creu dinistr rhyfeddol yn Efrog Newydd a New Jersey diwedd yr hydref y llynedd. Lladdwyd bron i 300 yn ystod taith y storm, a gwnaed o leiaf gwerth \$68 biliwn o lanast.

Yn ddiweddar, lladdwyd dros 3,000 ac achoswyd dioddefaint enbyd gan Typhoon Haiyan yn Ynysoedd y Ffilipinau; typhoon yn cario, o bosib, y gwyntoedd cryfaf erioed i daro'r lan - dros 200 milltir yr awr! Does yna ddim cyfri eto o'r gost ariannol.

Beth wedyn am y tannau a'r gwres eithafol, annhymhorol yn Awstralia yn ystod Medi a Hydref - eu gwanwyn nhw? Cafwyd sycher mawr a thannau ac wedyn llifogydd hunllefus ger Denver yn ne orllewin America, ac, yn ddiweddar, tornadoes dinistriol yn hwyr iawn yn y tymor yn Illinois.

Fe ymddengys bod America yn ei chael hi. Er hynny, cafwyd yn 2013 tymor *hurricane* lled dawel ym Môr Iwerydd. Gwahanol iawn oedd y sefyllfa yn y Cefnfor Tawel lle cafwyd tymor tymhestlog iawn a chorwynt Haiyan yn goron! Cafwyd gwres a llygredd angheuol yn rhai o ddinasoedd mwyaf China, a ysgogodd hyn newid yn y polisiau swyddogol.

GAEAF YR ARCTIG YN ANARFEROL O FWYN

Adref cawsom haf gwell. Ond bu hanner meter o law yn Sardinia mewn ychydig oriau. Roedd y gaeaf yn yr Antarctig yn arbennig o fwyn – yn ôl safonau'r Antarctig wrth gwrs.

Yn yr Arctig, dioddefodd Ynysoedd Arctig Canada haf oer ond cynnes iawn bu Siberia. Wrth gwrs, ni ddylid anghofio'r llifogydd enbyd yng ngogledd Ceredigion ac yn Rhuthun a Llanelwy a Llanfairtalhaearn yn lled ddiweddar.

A yw hyn yn adlewyrchu patrwm cyfnewidiol sydd wedi bod yn rhan o dywydd ein planed dros y canrifoedd? Neu a yw'n bosib bod y cyfryngau a globaleiddio yn tynnu ein sylw at achosion llawer mwy? A ydynt yn adlewyrchu'r wasg yn fwy na'r hinsawdd? Neu, a oes tuedd i dywydd gwyllt, mwy eithafol ein taro mewn cyfnodau - yn rhan o gylchoedd naturiol ein planed? Rydym yn gwybod am y newid achlysurol o El Nino i La Nina yn y Môr Tawel ac effeithiau'r cylchdro cyson yn Smotiau'r Haul.

Mae modelau newid hinsawdd yn rhagweld mwy o dywydd eithafol o ganlyniad i'r ynni / gwres ychwanegol sy'n cronni yn yr awyr a'r moroedd. Felly, a yw'r eithafion yn dyst i newid hinsawdd ac yn rhagflaenu mwy o wae i'r dyfodol?

O safbwynt gwyddonol nid yw'n bosib priodoli i sicrwydd unrhyw ddigwyddiad tywydd lleol unigol i newid hinsawdd. Yn fy ngholofn yn **Golwg** rwyf wedi ceisio pwysleisio bod cyfundrefn ddaearyddol ac amgylcheddol y blaned yn llawn ansicrwydd. Rhaid meddwl yn ystadegol am y newidiadau a'r risg er bod hyn yn groes i'n harfer ac i'n ffordd o feddwl.

Mae, hefyd, yn her i naiffrwydd a diffyg gweledigaeth ein gwleidyddion.

PATRWM TYWYDD MEWN PERYGL MEDD YSWIRWYR

Yn fwy na neb arall, y diwydiant yswiriant sy'n delio gyda siawns a risg ac mae eu bodolaeth a'u helw yn y fantol. Felly, os oes yna dueddiadau tuag at dywydd anwadal, dyna'r fan i ddechrau chwilio.

Yn ogystal â'r cwmniau unigol, mae 'na ddau gwmni, Swiss Re a Munich Re, sy'n yswirio'r yswirwyr.

I ddyfynnu data Munich Re - mae colledion tywydd yn UDA yn unig o 1980 i 2011 yn \$1 triliwn; colledion yswiriant yn \$510, gyda 30,000 yn colli eu bywydau. Mae'r colledion yn yr UDA wedi neidio 500% mewn tri degawd: o'i gymharu â 400% yn Asia a 200% yn Ewrop.

Mewn adroddiad gan y '*Geneva Association*', clwb ymchwil y cwmniau, cydnabyddir bod tystiolaeth gref o godiad yn nymheredd y moroedd a bod hyn yn peryglu patrymau ein tywydd.

Anogir newid cynsail yswiriant o asesiadau yn deillio o ddata hanesyddol i asesiadau yn dibynnu ar ragfynegiadau!

Yr hwn sydd â chlustiau i glywed, gwrandawed.